



Long term costing tool for flood and coastal risk management

Crynodeb prosiect SC080039/S

Mae'r offeryn costio hirdymor, a baratowyd gan JBA i Asiantaeth yr Amgylchedd, yn crynhoi'r dystiolaeth ar gostau amrywiaeth fawr o fesurau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Darperir y dystiolaeth fel casgliad o adroddiadau ac fel offeryn taenlen sy'n helpu ymarferwyr i greu amcangyfrifon costau oes cyfan yn rhwydd.

Caiff y dystiolaeth ei chrynhoi mewn casgliad o nodiadau, y mae'r cyntaf ohonynt yn cynnwys cyngor cyffredinol ar sut i greu amcangyfrifon costau oes cyfan. Mae'r nodiadau eraill yn trafod mesurau penodol, gan gynnwys:

- Amddiffynfeydd llinellol afonydd
- Rheoli sianelau
- Cwlfertau
- Asedau rheoli
- Storio llifogydd
- Erydu ac amddiffyniad arfordirol
- Adlinio rheoledig
- SDCau a draenio trefol
- Rhwystrau dros dro a symudadwy
- Amddiffyn cartrefi rhag llifogydd
- Defnydd tir a rheoli dŵr ffo
- Rhybuddion rhag llifogydd a darogan llifogydd
- Creu cynefinoedd

Mae'r offeryn taenlen yn cynorthwyo defnyddwyr i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu amcangyfrifon costau oes cyfan i'w prosiectau hwythau. Er enghraifft, datblygu strategaeth sy'n cynnwys portffolio eang a weithredir dros gyfnod o gan mlynedd. Darperir yr offeryn taenlen fel dogfen wag ac fel enghraifft â manylion wedi'u cynnwys.

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd nifer o offer asesu i ddarogan perygl llifogydd a buddion dewisiadau o ran rheoli perygl llifogydd. Fodd bynnag, nid oedd yr offer i amcangyfrif costau wedi'u datblygu'n helaeth iawn. Mae angen i ymarferwyr ddeall y costau yn ogystal â'r buddion er mwyn cefnogi dewisiadau rheoli effeithlon ac effeithiol. Felly mae'r prosiect hwn yn offeryn pwysig i wneuthurwyr penderfyniadau.

Mae'r allbynnau wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio gan ymarferwyr sydd angen creu amcangyfrifon amlinellol o'r costau'n gyflym. Gellid hefyd defnyddio'r offeryn taenlen fel fframwaith i greu amcangyfrifon costau manwl lle mae gan ymarferwyr eu data manylach eu hunain i'w defnyddio fel mewnbynnau.

Mae'r crynodebau tystiolaeth a'r offeryn taenlen wedi'u cynllunio i fod yn gytûn â gweithdrefnau arweiniad arfarnu prosiectau safonol. Dylai hyn ei gwneud yn haws i ymarferwyr ddefnyddio'r offer wrth ddatblygu achosion busnes a gwneud ceisiadau am gyllid.

Mae gan yr allbynnau strwythur modiwlaidd a darperir adroddiad ar wahân ar gyfer pob math o fesur. Bydd hyn yn ei gwneud yn hawdd diweddarau'r allbynnau os bydd gwybodaeth well ar gael.

Mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â gwybodaeth o'r prosiect canlynol:

Adroddiad: SC080039/R

Teitl: Long term costing tool for flood and coastal risk management

Mawrth 2015

Rheolwr y prosiect: Adam Baylis, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth

Contractwr Ymchwil: JBA Consulting, South Barn, Broughton Hall, Skipton, North Yorkshire, BD23 3AE, 01756 799919

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Gyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

E-bost: ferm.evidence@environment-agency.gov.uk.

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd.